

2017 Rhif (Cy. )

2017 No. (W. )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A40  
(Heol Draw i Scethrog, Powys)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
201-

The A40 Trunk Road (Heol Draw  
to Scethrog, Powys) (Temporary  
Prohibition of Vehicles) Order 201-

*Gwnaed* *Tachwedd 2017*  
*Yn dod i rym* *7 Tachwedd 2017*

*Made* *November 2017*  
*Coming into force* *7 November 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, being the traffic authority for the A40 Raglan to Llandoverly Trunk Road, are satisfied that traffic in a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**Title, Interpretation and Commencement**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Tachwedd 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol Draw i Scethrog, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 201-.

1. This Order comes into force on 7 November 2017 and its title is The A40 Trunk Road (Heol Draw to Scethrog, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 201-.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

2.—(1) In this Order:

"*exempted vehicle*" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 09:00 o’r gloch ar 7 Tachwedd 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri yn Sir Powys sy’n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain i Dretŵr wrth Heol-draw Cottage i ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain i bentref Scethrog.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Gwaharddiad**

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

### **Cymhwys**

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### **Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

Tachwedd 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Raglan to Llandovery trunk road in the County of Powys that extends from the centre-point of its junction with the road leading to Tretower at Heol-draw Cottage to the centre-point of its junction with the road leading to the village of Scethrog;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 09:00 hours on 7 November 2017 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

### **Prohibition**

3. No person shall, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

### **Application**

4. The prohibition in article 3 shall apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### **Duration of this Order**

5. The maximum duration for this Order shall be 18 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated

November 2017

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (HEOL  
DRAW I SCETHROG, POWYS) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 201-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod i ddyddiad yr Hysbysiad hwn. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, i'r de o Scethrog, Powys.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o'r A40 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i Dretŵr wrth Heol-draw Cottage i ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain i bentref Scethrog.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd ar hyd yr A40 tua'r de-ddwyrain i Nant-y-ffin, yr A479 tua'r gogledd i Fronllys, yr A438 tua'r gorllewin i Bont-y-bat, yr A470 tua'r de-orllewin i'w chyffordd â'r A40 wrth Gylchfan Brynich, Aberhonddu a'r A40 tua'r de-ddwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym am 09:00 o'r gloch ar 7 Tachwedd 2017 ac yn gweithredu'n ysbeidiol hyd 17 Tachwedd 2017, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A40 TRUNK ROAD (HEOL DRAW TO  
SCETHROG, POWYS) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 201-**

The Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road south of Scethrog, Powys.

The effect of the proposed Order will be to prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A40 that extends from the centre-point of its junction with the road leading to Tretower at Heol-draw Cottage to the centre-point of its junction with the road leading to the village of Scethrog.

The alternative route for westbound vehicles will be via the south-eastbound A40 to Nant-y-ffin, northbound A479 to Bronllys, westbound A438 to Pont-y-bat, south-westbound A470 to its junction with the A40 at Brynich Roundabout, Brecon and south-eastbound A40: vice versa for eastbound vehicles.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 09:00 hours on 7 November 2017 and operate intermittently until 17 November 2017 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government